

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Llinell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

GRIFFITH, ROGER (bu farw 1708), gweinidog Presbyteraidd, ac archddiacon wedyn

Enw: Roger Griffith
Dyddiad marw: 1708
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Presbyteraidd, ac archddiacon wedyn
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd, gellid meddwl, yn y Fenni. Yn 1690-2 yr oedd dan addysg yn Bishop's Hall, Bethnal Green, ar draul y 'Gronfa Gyffredin' (Bresbyteraidd a Chynulleidfao!); yr oedd **Charles Owen** (gweler yr ysgrif arno) yno gydag ef. Aeth wedyn i Brifysgol Utrecht (Holand), eto ar draul y gronfa. Tua 1695 urddwyd ef yn weinidog y Fenni; ac ar farwolaeth **Samuel Jones** Brynlliwarch yn 1697, symudodd y Bwrdd Presbyteraidd (eithr nid y Bwrdd Cynulleidfao!) ei fyfyrwyr i'r Fenni dan ofal Griffith; rhyw bump neu chwech oedd ohonynt (yn eu plith bu **Samuel Jones**, Tewkesbury' a **Thomas Perrott** yno), ac yr oedd gair da iawn i'r academi. Yn 1698 dechreuodd Griffith amlygu gogwydd at yr Eglwys Wladol, ac yn 1702 ymddiswyddodd a chydymffurfiodd. Rhoes y Goron iddo reithoraeth Maesyfed Newydd, efallai mor gynnar â 1704 - ond yn ôl **Jonathan Williams** (*History of Radnorshire*), o 1706 hyd 1708 y bu yno. Edrydd **Yardley** iddo ar 9 Hydref 1704 gael ei sefydlu'n archddiacon Brycheiniog, ar benodiad y Goron (nid oedd ar y pryd esgob yn Nhyddewi), a thrwy ddylanwad **Robert Harley**, iarll **Rhychen** wedyn, a oedd ar y pryd yn aelod seneddol dros Faesyfed. Y mae Edmund Calamy (a oedd yn Utrecht gyda Griffith) yn gofidio'n ddigon naturiol am enciliad Griffith, ac yn chwanegu iddo farw'n ddyledog a dibarch; ac y mae **Yardley** 'n terfynu ei nodyn sychlyd iawn arno â'r geiriau: 'Bu farw ym mis Hydref 1708, a chladdwyd ef yn eglwys Fair yn y Fenni, ond nid oes unrhyw faen coffa iddo - yn ôl rhestr blwyfol Maesyfed bu farw 'yn fuan ar ôl 10 Hydref.' Rhydd **Yardley** iddo'r radd o ' B.D. - efallai mai hon yw'r B.D. er anrhydedd a roes Prifysgol Caergrawnt i ryw 'Roger Griffith' yn 1705 (Venn, *Alumni Cantabrigienses*).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, i, 41-2, 47

W. D. Jeremy, *The Presbyterian Fund and Dr. Williams' Trust* (1885) (mynegai)

E. Yardley, *Menevia Sacra*. Arch. Camb. (1927), 203

Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690â€“1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917 (mynegai)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20734371**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

Jenkins, R. T., (1953). GRIFFITH, ROGER (bu farw 1708), gweinidog Presbyteraidd, ac archddiacon wedyn. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GRIF-ROG-1708>

Clipwedd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government